# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024

Amser: 09.01 - 09.17

# Remote/ Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards,  Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.35pm

**Dydd Mercher**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i newid aelodau’r blaid Lafur ar nifer o bwyllgorau i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i gais gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (o dan eitem 5.1) i amserlennu cynnig i benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher. Felly, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i agenda dydd Mercher:

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i gais gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (o dan eitem 5.1) i amserlennu cynnig i benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher. Felly, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i agenda dydd Mercher:

- <u>Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau (5 munud)</u>

- Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro (5 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Her 50 diwrnod newydd i wella rhyddhau cleifion o'r ysbyty a gofal cymunedol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl (45 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 27 Tachwedd 2024 -**

- Datganiad gan James Evans - Diweddariad ar y Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) arfaethedig (30 munud)

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Hefin David (Caerffili) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) at y Pwyllgor Newid Hinsawdd. yr Amgylchedd a Seilwaith er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac ymgynghori â'r Pwyllgor ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.2 Llythyr gan James Evans AS ynghylch y Bil Iechyd Meddwl (Safonau Gofal) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd ar y cynnig i amser gael ei roi i James Evans AS wneud datganiad i ddiweddaru'r Senedd ar ddatblygiad ei Fil Iechyd Meddwl (Safonau Gofal) (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Tachwedd 2024.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch penodi Comisiynydd Safonau Dros Dro

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i drefnu amser ar gyfer cynnig i benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro i ystyried cwyn benodol, gael ei gynnig yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 20 Tachwedd, a chytunodd arno.

## 6 Amserlen y Senedd

### 6.1 Dyddiadau Toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad Hanner Tymor y Sulgwyn a Thoriad yr Haf 2025, a chytunodd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer Hanner Tymor yr Hydref 2025 a Thoriad y Nadolig 2025/6.

## 7 Unrhyw fater arall

### Datganiad Ysgrifenedig ar amseroedd aros

Nododd y Llywydd ei bod wedi derbyn llythyr gan Arweinydd Plaid Cymru ynghylch Datganiad Ysgrifenedig ar amseroedd aros a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddydd Sul 17 Tachwedd ac yn mynegi pryder am gyhoeddi cyllid ychwanegol yng nghynhadledd y blaid Lafur dros y penwythnos, cyn i unrhyw wybodaeth gael ei darparu i'r Senedd. Nododd y Llywydd hefyd y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma.